The Health Board agrees with the approach taken in section 13 of the Draft Bill

Proposal

To replace the requirement in paragraph 3(3) of Schedule 2 of the Public Audit (Wales) Act 2013, to produce an interim report at least once a year, with a provision requiring the production of an interim report (as currently defined) if requested by the Assembly.

Question 8

Do you agree that the Auditor General for Wales and the Chair of the Wales Audit Office should no longer be required to produce an interim report at least once a year, but a requirement to produce an interim report upon the Assembly's request should be included in legislation?

The Health Board recognises that the routine production of interim reports appears to be disproportionately resource consuming and agrees that this requirement should cease as the Assembly can request that the AGW and Chair of the WAO produce interim reports at any time during a financial year.

Question 9

If so, do you agree with the approach taken in section 16 of the Draft Bill?

The Health Board agrees with the approach taken in section 16 of the Draft Bill

Proposal

To simplify the provisions in the Public Audit (Wales) Act 2013 to enable:

- the Auditor General for Wales and the Chair of the Wales Audit Office to provide the external auditor of the Wales Audit Office with their annual report no later than five months after the end of the financial year; and
- subsequently require the external auditor to lay the report as part of the laying of the annual accounts.

Question 10

Do you agree that the requirement to lay the annual report (on the exercise of functions of the Auditor General for Wales and Wales Audit Office) in paragraph 3(1) of Schedule 2 of the Public Audit (Wales) Act 2013 should be amended to require the external auditor to lay the report as part of the laying of the annual report and accounts?

The Health Board agrees with the proposal from the Wales Audit Office for their annual report to be laid by their external auditor as part of the laying of their annual report and accounts.

Question 11

If so, do you agree with the approach taken in section 15 of the Draft Bill?

The Health Board agrees with the approach taken in section 15 of the Draft Bill

Proposal

To amend enactments that specify a four month deadline for the Auditor General for Wales to certify and lay a copy of an audited body's accounts and report to:

- allow the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report after the four month deadline;
- require the Auditor General for Wales to explain to the Assembly why the four month deadline cannot be met; and
- require the Auditor General for Wales to lay the certified accounts and report as soon as reasonably practicable.

Question 12

Do you agree that existing legislation requiring the Auditor General for Wales to certify and lay an audited body's accounts and report within four months should be amended to:

- allow the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report after the four month deadline,
- require the Auditor General for Wales to explain to the Assembly why the four month deadline cannot be met, and
- require the Auditor General for Wales to lay the certified accounts and report as soon as reasonably practicable?

The Health Board agrees with the proposal to amend the deadline for certifying and laying accounts where the AGW needs to provide the audited body with sufficient time to comment on audit findings.

Question 13

If so, do you agree with the approach taken in section 17 and Schedule 1 of the Draft Bill?

The Health Board agrees with the approach taken in section 17 and Schedule 1 of the Draft Bill

Proposal

To amend the Public Audit (Wales) Act 2013 to allow the Wales Audit Office to appoint its external auditors, subject to the Assembly's approval of:

- the appointment,
- the terms of appointment, and
- the method of procurement.

Question 14

Do you agree that engagement of the auditor of the Wales Audit Office should be contractual matter between the Wales Audit Office and the auditor, with the appointment (and associated terms and conditions) being subject to the approval of the Assembly?

The Health Board agrees with proposals to simplify the appointment process for appointment of the auditors of the Wales Audit Office accounts.

Question 15

If so, do you agree with the approach taken in section 14 of the Draft Bill?

The Health Board agrees with the approach taken in section 14 of the Draft Bill

Proposal

To amend the Public Audit (Wales) Act 2013 to allow the appointment of a serving non-executive member to be extended for a second term of up to four years, subject to acceptable performance.

Question 16

Do you agree that the Public Audit (Wales) Act 2013 should be amended to allow the appointment of a serving non-executive member to be extended for a second term of up to four years, subject to acceptable performance?

The Health Board agrees with the proposal that, subject to acceptable performance, the Assembly should be able to reappoint serving non-executive directors of the Wales Audit Office for a second term of office.

Question 17

If so, do you agree with the approach taken in sections 7, 8 and 9 of the Draft Bill?

The Health Board agrees with the approach taken in sections 7 8 and 9 of the Draft Bill

Proposals

To remove the requirements placed on the Assembly to consult the First Minister on:

- the appointment of the Chair of the Wales Audit Office,
- the remuneration arrangements for the Chair and the Auditor General for Wales, and
- the termination of the Chair's appointment

in the interest of protecting the independence of those roles.

To remove the requirement to consult "an appropriate person with oversight for public appointments" on remuneration arrangements and other terms of appointment for WAO non-executive members and the Chair and replace it with a general provision permitting the Assembly to consult with any persons it deems appropriate.

To amend section 5(3) of the Public Audit (Wales) Act 2013 to require the Assembly to publish a list of restricted offices, positions or arrangements, which a former Auditor General for Wales would need to consult with the Assembly before accepting or entering into after leaving office, only if any such restrictions are identified.

Question 18

Do you agree that the requirement for the Assembly to consult the First Minister on the following should be removed:

- the appointment of the Chair of the Wales Audit Office;
- the remuneration arrangements for the Chair and the Auditor General for Wales; and
- the termination of the Chair's appointment?

The Health Board agrees with the proposal from the AGW, WAO, Assembly Commission and Welsh Government that the requirement to consult the First Minister on matters of appointments and remuneration should be removed.

Question 19

Do you agree that the requirement for the Assembly to consult an appropriate person with oversight for public appointments on remuneration arrangements and other terms of appointment should be removed?

The Health Board agrees with the proposal to replace the requirement to consult an appropriate person with oversight for public appointments with a general provision permitting the Assembly to consult with persons that it deems appropriate.

Question 20

Do you agree that a general provision should be included, permitting the Assembly to consult with any persons it deems appropriate before exercising any functions in relation to the Auditor General for Wales or the Wales Audit Office?

As per response to question 19 above

Question 21

If so, do you agree with the approach taken in sections 6, 10 and 11 of the Draft Bill?

The Health Board agrees with the approach taken in sections 6, 10 and 11 of the Draft Bill

Question 22

Do you agree that section 5(3) of the Public Audit (Wales) Act 2013 should be amended to require the Assembly to publish a list of restricted offices, positions or arrangements, which a former Auditor General for Wales would need to consult with the Assembly before accepting or entering into after leaving office, only if any such restrictions are identified?

The Health Board agrees with the proposal that a list of restricted offices should only be published when, and if, any such restrictions are identified.

Question 23

If so, do you agree with the approach taken in section 5 of the Draft Bill?

The Health Board agrees with the approach taken in section 5 of the Draft Bill

Other Questions

Question 25

Will any of the proposals included in the Draft Public Audit (Amendment) (Wales) Bill lead to any financial implications (for example, costs or benefits) for you or your organisation?

The Health Board does not anticipate that there will be any financial implications arising from the proposals included in the Draft Public Audit (Amendment) (Wales) Bill.

If you have identified financial implications for you or your organisation can you describe what these could be and provide an estimated cost (if possible).

Question 26

Do you have any other observations or general comments on the Public Audit (Wales) Act 2013 or the Committee's Draft Public Audit (Amendment) (Wales) Bill?

The Health Board does not have any other observations or general comments to make on the Public Audit (Wales) Act 2013 or the Committee's Draft Public Audit (amendment) (Wales) Bill.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: AC177/IE20001/caf

Dyddiad cyhoeddi: 7 Chwefror 2020

Annwyl Llŷr

Ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 yn ein hysbysu bod y Pwyllgor wedi cyhoeddi ei adroddiad ar ei waith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (PAWA 2013). Rydym yn croesawu'n fawr gasgliad y Pwyllgor bod angen diwygio PAWA 2013, ac rydym yn ddiolchgar iawn bod y Pwyllgor wedi cynhyrchu bil drafft ar gyfer ymgynghori.

Atodwn ein hatebion i gwestiynau eich ymgynghoriad, a gobeithiwn y byddant o gymorth i chi. Byddem yn hapus iawn i drafod y materion hyn ymhellach.

Yn gywir

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Everett
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio
Cymru

Atodiad: Ymateb i ymgynghoriad ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft

C1. A ydych yn cytuno y dylid rhoi hyblygrwydd i Swyddfa Archwilio Cymru o ran sut y mae'n codi ac yn gweinyddu ei ffioedd drwy ganiatáu iddi adennill costau yn fras, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall?

- (a) Ydym. Bydd disodli'r rheol gaeth "dim mwy na chost lawn" yn adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 â'r hyblygrwydd i adennill costau gan gymryd un flwyddyn gydag un arall yn dileu anghymhelliad sylweddol i wella effeithlonrwydd archwilio. Fel y soniwyd yn ein llythyr, dyddiedig 3 Mai 2018, mae'r rheol dim mwy na chost lawn yn golygu bod rhaid ad-dalu o fewn y flwyddyn unrhyw arbedion a wneir drwy fod yn fwy effeithlon, ac mae hynny'n atal ailddyrrannu archwilydd i gyflawni gwaith arall. Gyda'r gofyniad i adennill costau'n fras ar draws blynnyddoedd, yn hytrach nag yn union gysylltiedig â phob swyddogaeth ym mhob corff bob blwyddyn, gellir cadw arbedion yn y tymor byr i'w gwneud yn bosibl datblygu dulliau archwilio ymhellach ynghyd â datblygu gwerth ychwanegol mewn mannau eraill. Byddai'r gallu i fabwysiadu dull ychydig mwy hirdymor yn ei gwneud yn bosibl cyflawni newidiadau ym maint a setiau sgiliau'r gweithlu mewn ffordd fwy pwyllog a chynlluniedig ac yn lleihau'r risg o fesurau diswyddo drud.
- (b) O ran y cymhlethdod gweinyddol a achosir gan y rheol, fel yr amlinellwyd gennym yn ein llythyr dyddiedig 3 Mai 2018, mae'r rheol dim mwy na chost lawn yn arwain at gost weinyddol i SAC a chyrrff a archwilir o ran prosesu newidiadau bychain ac at gwynion ynghylch amrywiadau mewn ffioedd o flwyddyn i flwyddyn. Mae ymdrin â chwynion o'r fath yn llyncu swm sylweddol ac anghymesur o amser. Bydd cymryd un flwyddyn gydag un arall yn ei gwneud yn bosibl llyfnhau i raddau rhwng blynnyddoedd ac felly leihau'r amrywiad yn y ffioedd. Dylai hyn arwain at lai o gwynion a hefyd rhoi'r fantais i'r cyrrff a archwilir o gael ffioedd fydd yn haws eu rhagweld, ac felly eu cynorthwyo i gyllido'n fwy effeithiol.

C2. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 3 ac adran 4 o'r Bil Drafft?

- (a) Rydym yn credu y gall y dull cyffredinol fod yn gymorth i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a achosir gan y rheol bresennol o ddim mwy na chost lawn, ond awgrymwn fod yna rai materion i'w clirio.
- (b) Mae'r ddarpariaeth cywerthedd bras yn y Bil Drafft yn fwy caeth na'r dull a awgrymwyd gennym ni ym mis Mehefin 2018 am ei fod yn gofyn am gydgasglu o ran swyddogaethau penodol ym mhob corff yn hytrach nag o ran gwaith ar draws y cyrrff i gyd. (Mae hefyd yn fwy caeth na deddfwriaeth yr Alban, lle y gosodir y ffin gydgasglu fel "dosbarthiadau o achosion", a ddehonglir fel pob sector yn hytrach na chyrrff unigol). Bydd hyn yn osgoi trawsgymhorthdal rhwng

cyrff. Byddai trawsgymhorthdal o'r fath yn aml yn deg ac yn briodol hefyd, megis lle mae technegau archwilio newydd wrthi'n cael eu cyflwyno. (Yn aml, bydd ar y cyrff cyntaf, fydd yn destun datblygiadau o'r fath, angen mwy o amser archwilio na chyrff diweddarach. Gyda chydgasglu'r costau yn cael ei gyfyngu i bob corff bydd y cyrff cyntaf, heb ddim bai arnynt hwy, yn wynebu ffioedd uwch na'r rhai diweddarach.)

- (c) Nodwn fod tudalen 5 y dogfennau ymgynghori yn esbonio barn y Pwyllgor "[y dylid cadw'r] gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y corff y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef er mwyn sicrhau tryloywder i gyrrff a archwilir...". Rydym yn deall bod cydgasglu o ran pob corff yn angenrheidiol i gefnogi gofyniad tâl o'r fath ac rydym yn gweld rhinweddau'r farn hon. Er hynny, rydym yn meddwl nad yw'r rhinweddau hynny yn gorbwyso manteision mwy o symlrwydd a thegwch ein cynigion ym mis Mehefin 2018.
- (d) Wedi ystyried y mater hwn ymhellach, rydym o'r farn y gellid mynd i'r afael yn ddigonol â thegwch ac, i ryw raddau, â chymhlethdod drwy addasu'r gofyniad cydgasglu fel bod gwariant sy'n cael ei ariannu gan gyflenwad o Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â gwaith mewn corff yn cael ei ddiystyru i ddibenion cyfrifo ffioedd. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, wrth gwrs, byddai hyn yn golygu bod modd i'r gwaith o gychwyn defnyddio technegau newydd yn gynnar gael ei ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chan y cyrff fydd y rhai cyntaf i fod yn ddarostyngedig i dechnegau o'r fath. Byddai hefyd yn galluogi parhad, er enghraifft, ein dull presennol o annog cyfranogiad gwirfoddol mewn paru data drwy bennu ffi nil.
- (e) Mae gennym hefyd y pryderon a ganlyn ynghylch adrannau 3 a 4 o'r Bil Drafft, y gobeithiwn y gellir mynd i'r afael â hwy drwy fireinio'r darpariaethau:
- i. Mae adran 23 o Ddeddf 2013 fel y câi ei diwygio gan y Bil Drafft yn ymddangos fel pe na bai'n berthnasol ond i'r pwerau a'r dyletswyddau i godi tâl, y cyfeirir atynt yn benodol yn yr adran honno (yn is-adrannau (3) a (4)). Ond mae'r is-adran (6) newydd yn cyfeirio'n effeithiol at yr holl ddeddfiadau hynny, y caiff SAC godi ffi danynt (gweler adran 24 (2) (a)), sy'n lletach na phwerau adran 23 i godi tâl). Ymddengys bod hyn yn gadael rhai ffioedd pwysig, megis ffioedd archwilio llywodraeth leol, y tu allan i gwmpas adran 23. Er mwyn cysondeb ac i osgoi cymhlethdod diangen, hoffem i bob ffi (ar wahân i ffioedd gwaith cytundeb) gael ei chwmpasu yn y gofyniad cywerthedd bras.
 - ii. Byddai adran 3 o'r Bil Drafft yn diwygio adran 23 (5) (b) o Ddeddf 2013 fel ei bod yn darparu "y *gall* (ffioedd) gael eu cydgasglu a'u codi ar sail cywerthedd bras (gweler is-adran (6))". Yna, mae'r is-adran newydd (6) yn darparu bod "*rhaid* i SAC geisio sicrhau bod cyfanswm y ffioedd a godir" yn cael ei godi ar sail cywerthedd bras. Nid ydym yn glir a fwriedir cael disgresiwn o ran y sail y codir ffioedd arni, e.e. y caiff SAC godi ffioedd am swyddogaethau unigol heb ystyried cywerthedd bras.

- iii. Yn ein hawgrym ym mis Mehefin 2018, defnyddiasom y term "*gwaith*", ond mae'r Bil Drafft presennol yn defnyddio'r gair "*swyddogaethau*". Rydym yn bryderus nad yw "*swyddogaethau*" efallai'n cwmpasu'r pwerau a'r dyletswyddau sydd ymhlyg. Efallai nad yw hyn yn wir, ond byddem yn croesawu eglurder.

C3. A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru bennu ei thelerau a'i hamodau ei hun ar gyfer *gwaith* cytundeb?

Ydym. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae cyfyngiad presennol y rheol dim mwy na chost lawn yn golygu na all Swyddfa Archwilio Cymru gadw gwargedau sy'n deillio o waith cytundeb. Ni cheir defnyddio gwargedau o'r fath i ariannu gweithgareddau a datblygiadau prif ffrwd, na hyd yn oed eu hildio i Gronfa Gyfunol Cymru. Y canlyniad yw colli cyfleoedd (er mai rhai gweddol fychain) i gyfrannu at gyllid cyhoeddus Cymru. At hynny, mae'r angen i weinyddu ad-daliadau yn dasg ychwanegol nad yw'n rhoi fawr ddim budd, os o gwbl, i gyrff cyhoeddus Cymru.

C4. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 2 o'r Bil Drafft?

Ydym. Ymddengys bod darpariaethau adran 2 yn cael gwared yn effeithiol ac yn briodol ar gyfyngiad y rheol dim mwy na'r gost lawn mewn perthynas â *gwaith* cytundeb.

C5. A ydych yn cytuno y dylid cadw gofyniad presennol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o ran cworwm mewn deddfwriaeth, sef y gofyniad am fwyafrif o aelodau anweithredol?

Na. Nid ydym yn credu bod cael y gofyniad hwn mewn deddfwriaeth yn angenrheidiol nac yn ddefnyddiol. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori, mae'r gofyniad cworwm statudol o fwyafrif anweithredol yn gwneud SAC yn dueddol i fod heb gworwm. Fodd bynnag, gyda newidiadau yn y darpariaethau i ganiatáu i aelod sy'n gyflogai (gan gynnwys aelod sy'n gyflogai etholedig) barhau i fod yn bresennol fel sylwedydd, credwn y dylai cadw gofyniad y cworwm fod yn llai o broblem nag y bu hyd yma.

C6. Os na fydd mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod o fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn aelodau anweithredol, a ydych yn cytuno y dylid caniatáu i aelod gweithredol barhau'n bresennol mewn cyfarfod, ond heb yr hawl i bleidleisio, er mwyn bodloni'r gofyniad o ran cworwm?

Ydym. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem bresennol, sef bod cyfraniad aelodau sy'n gyflogeion, gan gynnwys aelodau etholedig, yn cael ei leihau gan reol y mwyafrif anweithredol statudol pan fydd aelod anweithredol yn methu â bod

yn bresennol. Fel y dywedasom yn ein llythyr dyddiedig 3 Mai 2018, mae'r broblem hon yn groes i gefnogaeth ddatganedig y Llywodraeth i aelodau sy'n gyflogeion etholedig.

C7. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 13 o'r Bil Drafft?

Yn fras, ydym. Er ei bod yn ddefnyddiol bod y Nodiadau Esboniadol yn dweud na fyddai angen i aelod sy'n gyflogai adael cyfarfod i sicrhau bod yna gworwm, mae gennym, fodd bynnag, rai ymholiadau ynghylch eglurder y darpariaethau drafft. Credwn y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai paragraff presennol 28 (3) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn cael ei ddiwygio i gydnabod ei fod yn ddarostyngedig i baragraff newydd 28 (4) ac i ystyried nad yw aelod sy'n gyflogai, sy'n bresennol fel sylwedydd, yn "bresennol" i ddibenion penderfynu a oes yna gworwm.

C8. A ydych yn cytuno na ddylai fod yn ofynnol mwyach i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru lunio adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn, ond y dylid cynnwys gofyniad mewn deddfwriaeth i lunio adroddiad interim ar gais y Cynulliad?

Ydym. Nid ydym yn credu bod angen gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer unrhyw adroddiadau interim. Ni allwn ragweld sefyllfa lle na fyddem yn darparu adroddiad ar gais (a, phe bai'n mynd i hynny, mae adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer i'r Cynulliad alw am wybodaeth), ac ystyriwn fod darpariaeth ar gyfer adrodd ar gais, yn hytrach nag o leiaf unwaith y flwyddyn, yn ddatblygiad synhwyrol. Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr ar 3 Mai 2018, mae'r ystyriaeth gyfyngedig a gaiff adroddiadau interim yn dangos bod y gofyniad i'w cynhyrchu o leiaf unwaith y flwyddyn yn anghymesur.

C9. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 16 o'r Bil Drafft?

Ydym. Mae adran 16 yn ymddangos yn briodol.

C10. A ydych yn cytuno y dylid newid y gofyniad i osod yr adroddiad blynyddol (ar arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru) ym mharagraff 3(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiad wrth osod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon?

Ydym. Mae hwn yn ateb synhwyrol i'r sefyllfa anfoddhaol braidd lle mae'n rhaid, oherwydd y gofynion adrodd statudol cyfochrog, i'r un adroddiad gael ei osod ddwywaith: unwaith gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyd â Chadeirydd SAC, ac

unwaith gan archwilydd allanol SAC. Nid yw dyblygu a chymhlethdod o'r fath yn gymorth o ran eglurder cyfrifoldeb.

C11. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 15 o'r Bil Drafft?

Ydym. Mae adran 15 yn ymddangos yn briodol.

C12. A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio a gosod cyfrifon ac adroddiad corff a archwilir o fewn pedwar mis:

- ✦ i ganiatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis,
- ✦ i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru esbonio i'r Cynulliad pam na ellir bodloni'r terfyn amser o bedwar mis, ac
- ✦ i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod y cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol?

Ydym. Bydd darparu ar gyfer gweithdrefn frys o'r fath yn caniatáu digon o gyfle i gyrff a thrydydd partiön ymateb i feirniadaeth mewn adroddiadau ar gyfrifon cyn iddynt gael eu gosod a'u cyhoeddi (h.y. cyfiawnder naturiol), heb dorri'r terfyn amser statudol. Ni fydd hyn yn esgus hawdd a pharod am oedi, gan y bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol esbonio ym mhob achos pam na ellir bodloni'r terfyn amser.

C13. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 17 ac Atodlen 1 i'r Bil Drafft?

Ydym. Ymddengys y byddai darpariaethau'r Bil Drafft yn gweithredu'r cynnig uchod yn foddhaol.

C14. A ydych yn cytuno y dylai penodiad archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru fod yn fater cytundebol rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilydd, ac y dylai'r penodiad (a'r telerau a'r amodau cysylltiedig) fod yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad?

- (a) Ydym. Mae cael contract rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'i harchwilydd yn symleiddio trefniadau mewn ffordd ddefnyddiol drwy wneud rhwymedigaethau yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd, mae angen cytundeb cydlythyr i amddiffyn Comisiwn y Cynulliad rhag hawliadau gan ei gontractwr (yr archwilydd), er

enghraifft, am fethiant ar ran Swyddfa Archwilio Cymru i dalu ffioedd archwilio. Yn yr un modd, mae angen trefniant o'r fath i ddiogelu Swyddfa Archwilio Cymru rhag difrod (e.e. i systemau TG) a achoswyd gan archwilydd esgeulus a benodwyd gan y Cynulliad. Mae gwneud trefniadau o'r fath yn ychwanegu cymhlethdod sylweddol, sy'n faich ychwanegol ar staff caffael Comisiwn y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru hefyd.

- (b) Dylai gwneud y penodiad yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad fod o gymorth i sicrhau nad yw SAC yn contractio gydag archwilydd anaddas, megis un nad yw'n meddu ar gymwysterau neu adnoddau addas. Mae trefniant cymeradwyo o'r fath yn cadw'r fantais hon o benodiad gan y Cynulliad (a chontract gyda Chomisiwn y Cynulliad), heb barhau anfantais yr angen am gytundeb cydlythyr.

C15. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 14 o'r Bil Drafft?

Ydym. Ymddengys bod adran 14 y Bil Drafft yn rhoi'r cynnig uchod ar waith yn foddhaol.

C16. A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn bosibl ymestyn penodiad aelod anweithredol sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd am ail dymor o hyd at bedair blynedd?

Ydym. Byddai hyn yn symleiddio'r trefniadau penodi ac yn eu rhesymoli. Mae'r gofyniad presennol i aelodau anweithredol sydd yn y swydd fod yn destun proses gystadlu lawn er mwyn gwasanaethu ail dymor yn ddianghenraid o feichus i'r aelodau anweithredol ac i'r Cynulliad. Mae hefyd yn tueddu i dynnu oddi wrth lefel briodol o barhad ar y Bwrdd.

C17. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 7, adran 8 ac adran 9 o'r Bil Drafft?

Ydym. Ymddengys bod adrannau 7, 8 a 9 o'r Bil Drafft yn gweithredu'r cynigion i ddiwygio penodi yn foddhaol.

C18 A ydych yn cytuno y dylid dileu'r gofyniad i'r Cynulliad ymgynghori â'r Prif Weinidog ynghylch y materion a ganlyn:

- ✦ penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru;
- ✦ y trefniadau o ran tâl y Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru; a
- ✦ dod â phenodiad y Cadeirydd i ben?

Ydym, rydym yn cytuno y dylid dileu'r gofynion hyn i ymgynghori â'r Prif Weinidog ynghylch penodi, talu a therfynu cyfnod Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gofynion yn creu'r risg o ganfyddiad, os nad perygl gwirioneddol, fod corff a archwilir yn cael dylanwad amhriodol ar ddewis person allweddol sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori ei archwilydd. Yn yr un modd, mae'r gallu i ddylanwadu ar y gydnabyddiaeth a roddir i'r Archwilydd Cyffredinol yn bygwth tanseilio annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

C19. A ydych yn cytuno y dylid dileu'r gofyniad i'r Cynulliad ymgynghori â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus ynglŷn â threfniadau talu cydnabyddiaeth a thelerau eraill sy'n ymwneud â phenodiad?

Ydym, rydym yn cytuno y dylid dileu'r gofyniad hwn. Nid yw'n glir pwy sy'n berson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus, mewn perthynas â chydabyddiaeth a thelerau eraill penodi aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

C20. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys darpariaeth gyffredinol sy'n caniatáu i'r Cynulliad ymgynghori ag unrhyw berson sy'n briodol yn ei farn ef cyn arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru?

Ydym. Dylai darpariaeth o'r fath sicrhau y caiff y Cynulliad, heb unrhyw amheuaeth, ymgysylltu â phersonau sydd â gwybodaeth a phrofiad perthnasol i gynorthwyo'r Cynulliad. Er enghraifft, byddai'n ei gwneud yn glir y gallai Cadeirydd SAC gynorthwyo gyda safbwyntiau ynghylch perfformiad a chydbwysedd sgiliau'r swyddogion anweithredol presennol. Dylai hyn fod o gymorth i alluogi'r Cynulliad i benodi bwrdd cydlynol i SAC, gydag Aelodau â sgiliau cydategol, ac felly helpu i sicrhau ei fod yn effeithiol.

C21. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 6, adran 10 ac adran 11 o'r Bil Drafft?

Ydym. Ymddengys bod adrannau 6, 10 ac 11 o'r Bil Drafft yn gweithredu'r rhesymoli ar y gofynion ymgynghori uchod yn foddhaol.

C22. A ydych yn cytuno y dylid diwygio adran 5(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig, y byddai angen i gyn-

Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad yn eu cylch cyn eu derbyn neu ymrwymo iddynt ar ôl gadael y swydd, ond dim ond os bydd unrhyw gyfyngiadau o'r fath wedi'u nodi?

Ydym, rydym yn cytuno mai dim ond pan gaiff swyddi o'r fath eu nodi y dylid cyhoeddi rhestr o swyddi a threfniadau y byddai angen i gyn-Archwilydd Cyffredinol ymgynghori yn eu cylch. Mae rhestrau'r swyddi a'r gweithgareddau cyfyngedig a nodir yn adran 5 (5) i (7) o Ddeddf 2013 mor helaeth fel ei bod yn anodd gweld y byddai angen rhestru rhagor.

C23. Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 5 o'r Bil Drafft?

Ydym. Ymddengys bod adran 5 o'r Bil Drafft yn rhesymoli gofynion Deddf 2013 mewn ffordd synhwyrol.

C24. A ydych yn teimlo y dylai'r Bil Drafft gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn:

- ✦ **y diffyg dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyrraedd casgliad gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog;**
- ✦ **absenoldeb darpariaeth benodol mewn statud ar gyfer barn rheoleidd-dra ymhlith llawer o gyrff llywodraeth ganolog;**
- ✦ **gofynion gosod sy'n gorgyffwrdd;**
- ✦ **pwerau paru data Cymru?**

Ydym, ym mhob un o'r pedwar achos:

- (a) **Diffyg dyletswydd i ddod i gasgliad gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog** — fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae diffyg dyletswydd o'r fath yn golygu bod craffu ar gyrff llywodraeth ganolog yn gyffredinol yn llai helaeth i raddau na'r craffu ar y GIG a llywodraeth leol. Efallai y byddai o gymorth pe baem yn ychwanegu, er bod digonolrwydd rhai trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn digwydd cael ei archwilio fel rhan o archwiliad cyfrifon, megis digonolrwydd rheolaethau cyflogres, na fydd eraill, megis cadernid trefniadau caffael, yn cael eu harchwilio ond os bydd astudiaeth benodol yn cael ei chynnal neu os bydd pryderon penodol ynghylch rheoleidd-dra yn codi sy'n gorgyffwrdd â threfniadau gwerth am arian, megis diffyg proses gyfreithlon. Mae hyn yn golygu bod yna fylchau wrth ystyried y trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn y llywodraeth ganolog.
- (b) Dylid nodi, er bod yna orgyffwrdd rhwng gofynion rheoleidd-dra a gofynion gwerth am arian, nad yw'r gofynion hyn yr un peth. Nid yw'r gofyniad i'r

Archwilydd Cyffredinol ddarparu barn ynghylch rheoleidd-dra yn darparu casgliad gwerth am arian. Er bod Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a memoranda Swyddogion Cyfrifyddu yn cynnwys gofyniad i Swyddogion Cyfrifyddu gymryd cyfrifoldeb personol am:

"Werth am arian, gan sicrhau bod prosesau caffael, prosiectau a phrosesau'r sefydliad yn cael eu gwerthuso a'u hasesu'n systematig i roi hyder ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, doethineb, ansawdd, gwerth da, a fernir ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd",

mae hwn yn ofyniad ar wahân i'r cyfrifoldeb am:

"Reoleidd-dra a phriodoldeb ... gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw wariant y tu allan i'r dirprwyaethau arferol neu o bosibl y tu allan i'r cwmpas perthnasol ... "

(gweler paragraff 3.3.3 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru).

- (c) Yn unol â hynny, ni allai methiant corff i ddangos gwerthusiad systematig o effeithiolrwydd gwariant, ynddo'i hun, arwain at farn amodol ar reoleidd-dra, ond fe allai, mewn rhai amgylchiadau, e.e. gyda phrosiectau mawr, fod yn destun casgliad gwerth am arian.
- (d) Mae hefyd yn werth nodi, gan fod asesiad o reolaeth fel rhan o archwiliad cyfrifon yn darparu llawer o dystiolaeth berthnasol ar gyfer casgliad gwerth am arian, a chan fod ymagwedd yr Archwilydd Cyffredinol at y casgliad yn seiliedig ar risg, mai gweddol ychydig yw swm y gwaith ychwanegol sydd ei angen i'w ddarparu, os oes trefniadau cyffredinol da yn eu lle. Mae hyn yn arbennig o wir am gyrff bach a chyrrff â diben penodol. Mae archwiliadau cynaliadwyedd (dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), lle maent yn berthnasol, hefyd yn darparu tystiolaeth berthnasol ar gyfer barn ynghylch gwerth am arian, gan leihau ymhellach yr angen am waith ychwanegol i gefnogi'r casgliad.
- (e) **Abseoldeb darpariaeth benodol mewn statud ar gyfer barnau rheoleidd-dra ymhlith llawer o gyrff llywodraeth ganolog** — fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, golyga hyn fod elfen sylfaenol o reolaeth y Cynulliad ar wariant llywodraeth ganolog ar goll o statud mewn perthynas â rhai cyrrff. Er mai arferiad yr Archwilydd Cyffredinol yw rhoi barn reoleidd-dra ar holl gyfrifon llywodraeth ganolog, hyd yn oed lle mae statud yn hepgor y darpariaethau perthnasol, nid yw'r anghysondeb hwn mewn deddfwriaeth yn gymorth, gan ei fod yn arwain at ddryswch a'r risg o her pan fydd yn rhoi barn anffafriol. Er nad yw'n debygol, gallai her o'r fath fod yn gostus iawn o ran amser staff a chostau cyfreithiol.
- (f) **Gofynion gosod sy'n gorgyffwrdd** — yr un sefyllfa anfodddhaol yn y gwraidd yw hon â'r un a grybwyllwyd yn C10 (sef oherwydd gofynion adrodd statudol cyfochrog bod rhaid gosod yr un adroddiad ddwywaith) ond ar gyfer amrywiol gyrff llywodraeth ganolog yn hytrach na SAC. Nid yw'r dyblygu a'r cymhlethdod yn gymorth i sicrhau eglurder cyfrifoldeb.

- (g) **Pwerau paru data Cymru ar ei hôl hi** — fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae hyn yn peri risg:
- (i) na fydd yn bosibl yng Nghymru cynnal ymarferion paru data cyflawn ledled y DU;
 - (ii) na fydd buddiannau ariannol posibl ar gael i Gymru o ran paru data, er mwyn nodi camgymeriadau a gwallau a chynorthwyo i adfer dyledion;
 - (iii) na fydd y potensial i sicrhau arbedion ychwanegol, drwy gynnwys cyfranogwyr gorfodol newydd, yn cael ei wireddu.
- (h) Er ei bod yn anodd iawn rhoi ffigur cadarn ar faint ariannol y risgiau hyn, dyfaliad deallus yw y byddant yn gyfystyr â nifer o filiynau o bunnoedd y flwyddyn. Hefyd gallai bod ar ôl yn y meysydd hyn annog ymddygiad troseddol neu ymddygiad anfuddiol arall, yn enwedig gan fod rhywfaint o gymorth ariannol, fel ar gyfer myfyrwyr, yn fwy hael yng Nghymru nag yn Lloegr.

C25. A fydd unrhyw rai o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol (er enghraifft, costau neu fanteision) i chi neu i'ch sefydliad? Os felly, a allwch ddisgrifio'r goblygiadau ariannol posibl i chi neu'ch sefydliad a rhoi amcangyfrif o'r gost (os yw'n bosibl i chi wneud hynny)?

- (a) Byddant. Rydym yn ofni y bydd y cyfeiriad parhaus at "swyddogaethau" yn adran 23 o Ddeddf 2013, a'r anghysondeb y byddai'r Bil Drafft yn ei gyflwyno rhwng adrannau 23 a 24 (gweler C3), yn golygu y bydd angen o hyd am ddadansoddiad manwl o'r amser a dreulir ar swyddogaethau penodol. Mae'n anodd rhagweld yn union pa effaith a gaiff y darpariaethau hyn, ond credwn y byddant yn lleihau'r arbedion cost a amcangyfrifwyd gennym yn 2018 (gweler tablau 2 a 3 o'n papur ym Mehefin 2018).
